**EITEM**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CYNLLUNIO** |
| **DYDDIAD** | **25ain Chwefror, 2013** |
| **TEITL** | **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**<br>**Cais i gofrestru llwybr troed ar y Map Swyddogol, Chwarel Dorothea, Cymuned Llanllyfni.** |
| **DIBEN** | **Ystyried a ddylai'r Awdurdod wneud Gorchymyn Diwygio** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Y dylai Cyngor Gwynedd wneud Gorchymyn Diwygio dan Adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gofrestru'r llwybr honedig ar y Map Swyddogol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus.**<br><br>**Petai'r Pwyllgor yn penderfynu gwneud Gorchymyn, argymhellir na ddylid derbyn unrhyw rwymedigaeth am gynnal a chadw'r llwybr hwn.** |
| **AWDUR** | **Aled Davies**<br>**Pennaeth Adran Rheoleiddio** |

1.0 **CYFLWYNIAD**

1.1 Bydd yr Aelodau yn cofio bod cais i gofrestru llwybr cyhoeddus o gwmpas ochr ddeheuol Chwarel Dorothea ar y Map Swyddogol, wedi cael ei drafod mewn Pwyllgor Cynllunio ar 9fed Gorffennaf, 2012. Mae copi o'r adroddiad ynghlwm er gwybodaeth (Atodiad 3).

1.2 Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n caniatáu i'r Cyngor wneud gorchymyn dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gofrestru'r llwybr dan sylw.

1.3 Adroddwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw hefyd bod cais pellach wedi ei wneud i gofrestru llwybr arall o amgylch ochr ogleddol y chwarel ond gohiriwyd y penderfyniad ar y mater penodol hwn gan fod angen rhagor o ymchwil.

1.4 Ers cyfarfod Gorffennaf, mae'r Adran wedi cynnal ymchwil trylwyr i'r ail gais sy'n cael ei gyflwyno i'w ystyried yn yr adroddiad hwn.

**2.0 Y CAIS**

2.1 Gwneir y cais gan Mrs Margaret Shakespeare ar ran Grŵp Amgylchedd Talysarn a Nantlle ac fe'i derbyniwyd gan y Cyngor yn Ionawr 2007.

2.2 Mae'r llwybr honedig yn cychwyn o'r gylchfan ar ben dwyreiniol Talysarn ac yn mynd ymlaen tua'r dwyrain yn rhannol ar hyd yr hen brifford rhwng Talysarn a Nantlle, gan fynd oddi arni tua'r gogledd a rhedeg o flaen Plas Talysarn cyn ail ymuno â'r ffordd ddi-ddosbarth i'r dwyrain o Dalysarn Uchaf a mynd ymlaen ar ei hyd i gyfeiriad Nantlle. Dangosir y llwybr rhwng pwyntiau A-B-C-D-E ar y cynllun a roddir yn Atodiad 1.

## 3.0 HANES

3.1 Mae’r ardal lle saif Chwarel Dorothea ar hyn o bryd yn gorwedd ar draws yr hen briffordd rhwng Talysarn a Nantlle.

3.2 Yn Ionawr 1924, fe wnaeth rhan o’r ffordd hon (ger pwynt B ar y cynllun) lithro i weithfeydd y chwarel a wnaeth dorri’r cysylltiad rhwng y ddau bentref dros dro.

3.3 O fewn ychydig ddyddiau i’r cwymp, roedd y cyn Gyngor Sir Gaernarfon wedi gwneud cais i Ymddiriedolwyr Stad Talysarn am ganiatâd i adeiladu ffordd dros dro trwy erddi Plas Talysarn, gerllaw.

3.4 Ar y pryd, roedd trafodaethau eisoes wedi cychwyn ynglŷn ag adeiladu’r B4418 bresennol i’r de o Chwarel Dorothea.

3.5 Yn ôl llyfr cofnodion Cyngor Sir Gaernarfon, roedd yr Ymddiriedolwyr yn cynnig “wayleave or licence” dros safle’r ffordd dros dro am gyfnod o 3 blynedd - yr amser yr oeddent yn amcangyfrif y byddai’n ei gymryd i adeiladu ac agor y ffordd newydd i’r de. Ar ôl y cyfnod o 3 blynedd, fe wnaeth yr Ymddiriedolwyr gynnig y dylai wyneb y ffordd dros dro gael ei adfer i’w gyflwr gwreiddiol ac y byddai Cyngor Sir Gaernarfon yn cymryd camau i gau’r hen briffordd fel yr oedd trwy’r chwarel yn ffurfiol. Petai’r briffordd yn cael ei chau yn ffurfiol, roedd Cyngor Sir Gaernarfon yn cynnig adeiladu llwybr troed rhwng Pont Talysarn a ffin ddwyreiniol Dorothea.

3.6 Mewn cyfarfod o Bwyllgor Syrfëwr Cyngor Sir Gaernarfon ar 21$^{ain}$ Mehefin, 1924, adroddwyd bod y ffordd dros dro wedi cael ei chwblhau ac ar agor i draffig.

3.7 Yn ystod gwanwyn 1924, roedd y gwaith tirfesur ar y ffordd newydd arfaethedig i’r de o’r chwareli bron a’i gwblhau ac yn dilyn trafodaethau gyda Chyngor Plwyf Llandwrog ym Mai 1924, argymhellwyd cynnig i’r Weinyddiaeth Drafnidiaeth a gafodd ei gymeradwyo wedyn.

3.8 Cynhaliwyd trafodaethau gyda’r tirfeddianwyr yn 1925 ac adroddwyd bod y gwaith adeiladu wedi cychwyn tua mis Hydref 1925 a’r gwaith ar y ffordd newydd wedi symud yn ei flaen ddigon iddi gael ei hagor i draffig ar 1$^{af}$ Mawrth, 1927.

3.9 Mewn cyfarfod o’r Cyngor Sir ar 10$^{fed}$ Mawrth, 1927, adroddwyd bod camau’n cael eu cymryd i gael cymeradwyaeth Cynghorau Plwyf Llandwrog a Llanllyfni o ran cau’r ffordd trwy’r chwarel yn barhaol, roedd gan y ddau “hawl i wahardd” unrhyw gau o’r fath.

3.10 Mae’n ymddangos bod nifer o drafodaethau wedi cael eu cynnal rhwng y Cyngor Sir, y Cynghorau Plwyf a’r perchenogion tir perthnasol yn y cyswllt hwn ond mae’n ymddangos na lwyddwyd i gyrraedd unrhyw gytundeb erioed.

3.11 Dengys cofnodion y Cyngor na fyddai Cyngor Plwyf Llandwrog yn cefnogi cau'r ffordd nes byddai llwybr cyhoeddus wedi ei greu rhwng Talysarn a Nantlle wrth ochr tramffordd (Llyfr cofnodion y Cyngor Sir 8fed Rhagfyr, 1928), safiad y gwnaeth y Cyngor Plwyf ei ail gadarnhau nifer o weithiau yn ystod yr 1930au.

3.12 Mae'n ymddangos i'r trafodaethau fynd i gaethgyfle gan nad oedd y tirfeddiannwr yn barod i lwybr cyhoeddus gael ei adeiladu nes byddai'r ffordd trwy'r chwarel yn cael ei chau yn ffurfiol (Llyfr cofnodion Cyngor Sir Gaernarfon 11eg Rhagfyr 1930).

3.13 Parhaodd yr anghytundeb trwy gydol yr 1930au ac mae'n ymddangos bod y trafodaethau hyn wedi eu gadael yn y pen draw tua 1938.

3.14 Mae'r swyddogion wedi cynnal ymchwiliad manwl o gofnodion Cyngor Sir Gaernarfon hyd at Ad-drefnu Llywodraeth Leol yn 1974 ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth bod y ffordd gyhoeddus trwy'r chwarel erioed wedi ei chau yn ffurfiol.

3.15 Dengys y Gofrestr Priffyrdd bresennol bod y ffordd yn stopio ychydig o fewn ffiniau Chwarel Dorothea. Dangosir ei statws fel ffordd ddi-ddosbarth.

3.16 Mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol bod ffordd gyhoeddus sy'n diflannu oherwydd cwymp, er enghraifft, i'r môr neu i bwll, yn dod i ben yn gyfreithiol.

3.17 Er mwyn ail greu cyswllt ffurfiol i gerddwyr rhwng Talysarn a Nantlle, fe gofrestrwyd llwybr cyhoeddus ar hyd yr hen dramffordd tu ôl i Blas Talysarn ar y Map Swyddogol yn 1988. Adnabyddir y llwybr fel Llwybr Cyhoeddus Rhif 128 yng Nghymuned Llanllyfni. Mae'r llwybr i raddau helaeth, ond nid yn gyfan gwbl, yn dilyn llinell y llwybr a drafodwyd yn y 1920au a'r 1930au.

## 4.0 TYSTIOLAETH

### Tystiolaeth Defnyddwyr

4.1 Dan Adran 31 o'r Ddeddf Priffyrdd 1980, pan fydd llwybr wedi cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd yn ddirwystr am gyfnod llawn o ugain mlynedd heb unrhyw weithred amlwg gan y tirfeddiannwr i atal hynny, yna fe dybir bod y llwybr wedi ei ddynodi yn briffordd.

4.2 Cyfrifir y cyfnod o ugain mlynedd yn ôl o'r amser pan y gwnaeth rhywun "fwrw amheuaeth" gyntaf am y defnydd o'r llwybr.

4.3 Yn yr achos penodol hwn, mae'n ymddangos mai pan gyflwynwyd y cais y "bwriwyd amheuaeth" gyntaf am hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr gan nad yw'n ymddangos bod unrhyw weithred amlwg gan y tirfeddiannwr – er enghraifft, cloi giatiau - y gellid ei ddisgrifio fel bwrw amheuaeth am yr hawl i ddefnyddio'r llwybr.

4.4 Felly, ar gyfer dibenion y cais hwn, dan Adran 31 o Ddeddf Priffyrdd 1980, fe ddaeth hawl y cyhoedd i gerdded ar hyd y llwybr honedig dan amheuaeth gyntaf yn 2007 pan dderbyniwyd y cais. Y cyfnod o ddefnydd i'w ystyried dan Adran 31 felly yw 1987-2007.

4.5 Cefnogir y cais gan 28 Datganiad o Dystiolaeth. Mae'r siart bar a roddir yn Atodiad 2 yn crynhoi'r defnydd honedig fel y mae'n cael ei nodi yn y Datganiadau.

4.6 Wrth archwilio'r dystiolaeth, mae 27 o'r hawlwyr yn nodi eu bod wedi defnyddio'r llwybr am y cyfnod gofynnol i fod yn ddigonol i roi sail i'r dybiaeth ei fod wedi ei ddynodi yn llwybr cyhoeddus.

4.7 Ym Mawrth 2008, rhoddwyd cyfweliad i 11 o'r hawlwyr am eu defnydd o'r llwybr. Nododd naw o'r rhai a gyfwelwyd nad oeddent erioed wedi gweld unrhyw arwyddion na chael eu herio wrth ddefnyddio'r llwybr. Nododd dau hawlydd bod arwyddion yn bresennol, ond bod y rhain wedi eu hanelu at y deifwyr a'r cerbydau sy'n mynd at y llyn.

4.8 O'r rhai a gyfwelwyd, mae un hawlydd yn cofio bod dyn a chi yn cadw golwg o gwmpas Chwarel Dorothea. Fe wnaeth hyn barhau am 3 i 4 mis ar ôl i'r Chwarel gau yn 1970.

4.9 Yng Ngorffennaf 2011 fe wnaeth Swyddog Cyfreithiol y Cyngor a Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyfweld rhai o'r hawlwyr i sicrhau bod yr hyn yr oeddent wedi ei honni yn gywir, ac i sefydlu a fyddent yn barod i fynd i ymchwiliad cyhoeddus i roi tystiolaeth os yn ofynnol.

**Tystiolaeth arall**

4.10 Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr honedig yn cyd-fynd â'r ffordd di-ddosbarth, yr eithriad yw'r rhan rhwng pwynt B, C a D. Mae'n ymddangos bod y rhan o'r llwybr honedig rhwng B ac C, yn y gorffennol, wedi bod yn ffordd fynediad at Blas Talysarn. Mae'r rhan benodol yma yn ymddangos yn argraffiad cyntaf y map Arolwg Ordnans 25 modfedd i'r filltir a gyhoeddwyd yn 1889, ond ar y pryd hwnnw, roedd y ffordd yn dod i ben wrth y Plas (pwynt C). Mae'r sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu wedyn ar yr argraffiadau a gyhoeddwyd yn 1900, 1913 a 1916.

4.11 Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, fe ymestynnwyd y ffordd at y Plas (oedd erbyn hynny yn eiddo i Gwmni Chwarel Lechi Dorothea) tua'r dwyrain i'r ffordd wreiddiol rhwng Talysarn a Nantlle ym mhwynt D. Fe wnaed y gwaith hwn mae'n debyg gan gyngarcharorion Rhyfel oedd newydd ddychwelyd adref ar ôl cael eu dal yn gaeth yn y Dwyrain Pell. Credir bod y rhan o'r ffordd rhwng C a D, sy'n cael ei galw yn lleol yn "Burma Road", wedi ei gorffen yn 1949.

4.12 Yn ôl hanes lleol, roedd y prif giatiau at Blas Talysarn yn cael eu cloi ond roedd y giatiau ochr yn dal ar agor ar gyfer cerddwyr. Ond, mae tystiolaeth y defnyddwyr yn ymestyn yn ôl i 1936 sy'n awgrymu bod y llwybr honedig yn cael ei ddefnyddio cyn i'r "Burma Road" gael ei hadeiladu. Mewn cyfweliad

gyda swyddogion y Cyngor, mae un o gyn-gyfarwyddwyr y chwarel (oedd mae'n debyg yn y swydd rhwng 1955 a 1970) wedi cadarnhau nad oedd yn atal y cyhoedd rhag cerdded ar hyd y "Burma Road".

4.13 Caewyd Chwarel Dorothea yn ffurfiol yn 1970 a thynnwyd giatiau Plas Talysarn yn 1972.

## 5.0 PERCHENOGAETH TIR

5.1 Mae'r rhan o'r llwybr honedig sydd rhwng pwyntiau B, C a D yn olynol wedi bod ym meddiant:

| | |
|---|---|
| Cwmni Chwarel Lechi Dorothea Cyfyngedig | hyd Chwefror 1973 |
| Anthony Yendle a Dafydd Gwyn Evans | Chwef 1973 hyd Fehefin 1984 |
| Anne Mary Darlington a David Vincent Darlington | 1984 hyd 1991 |
| Glyn David Small, Gillan Small,<br>a Brian Leslie Harman & Noshir Jal Avari | 1991 hyd 1993 |
| Brian Leslie Harman | 1993 hyd 2005 |
| Capital Landfill Restoration (Bath) Limited | 2005 hyd heddiw |

5.2 Mae manylion perchenogaeth y tir yn ymwneud â'r darn hwn o dir wedi eu cofnodi yn y Gofrestrfa Dir dan y Teitl CYM238163.

## 6.0 BARN Y TIRFEDDIANNWR

6.1 Mewn llythyr dyddiedig 7fed Medi 2007, cadarnhaodd Kidd Rapinet Solicitors, cynrychiolwr cyfreithiol Capital Landfill Restoration (Bath) Limited ("Capital Landfill"), eu gwrthwynebiad i'r llwybr honedig wrth ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan yr Adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Awst 2007. Roedd y gwrthwynebiad wedi ei seilio ar y rhesymau canlynol:-

i) ni fu defnydd di-dor ar y llwybr honedig dros y cyfnod yr honnir y cafodd ei ddefnyddio,
ii) roedd hysbysiadau wedi eu codi yn dangos yn glir bod y tir yn eiddo preifat a/neu nad oedd hawl tramwy cyhoeddus yn bodoli,
iii) roedd presenoldeb meini mawr, coed oedd yn dod dan Orchmynion Cadwraeth Coed, tyfiant a llechweddi serth yn ei gwneud hi'n anodd iawn, os nad yn amhosibl cerdded ar hyd y llwybr honedig i'r de o Chwarel Dorothea.

6.2 Ym Medi 2011, ymgynghorwyd eto â Kidd Rapinet Solicitors, yn gweithredu ar ran Capital Landfill, ynglŷn â'r cais. Gellir crynhoi ymateb y Cyfreithwyr, dyddiedig 11eg Tachwedd, 2011 fel hyn:-

i) Roedd y llythyr yn dadlau bod y cyhoedd wedi dechrau defnyddio'r llwybr honedig oherwydd bod Llwybr Cyhoeddus Rhif 128 dan ddŵr ac na ellid ei dramwyo.

ii) Yn ôl y llythyr, nid yw Capital Landfill erioed wedi cydsynio â'r defnydd o'r llwybr honedig. Honnwyd hefyd bod camau wedi eu cymryd dros y blynyddoedd i atal y defnydd arno, er enghraifft bod bariau wedi eu gosod ar ben dwyreiniol y llwybr honedig gan gyn-gyfarwyddwr ar Capital Landfill.

iii) Honnwyd bod Mr. John Carnell (yr oedd y cyfreithwyr wedi cael eu cyfeirio ato gan Capital Landfill) wedi dod ar draws aelodau o'r cyhoedd ar y safle a dweud wrthynt fod y tir yn breifat a bod rhaid iddynt gadw oddi arno. Honnwyd bod Mr Carnell wedi cael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Mrs Moira Duell Parri o Gyngor Gwynedd. Honnwyd hefyd bod arwyddion dwyieithog yn datgan "Eiddo Preifat - Cadwch Allan - Dŵr Dwfn" wedi eu codi dan gyfarwyddyd Mrs Moira Duell Parri.

iv) Roedd y llythyr yn nodi hefyd bod Mr Carnell yn bersonol wedi dweud wrth Mrs Shakespeare bod y tir dan sylw yn breifat, a bod rhaid iddi gadw oddi arno. Honnwyd bod Mr Carnell a Mr Philip Townend, Cyfarwyddwr ar Rexstone Management Ltd, rhiant gwmni Capital Landfill, yn ystod ymweliad safle, wedi dadlau gyda Mrs Shakespeare tra roedd hi yn gosod arwyddion yn dweud "Hawl Tramwy Cyhoeddus" a'i bod hithau wedi ymateb trwy dynnu'r arwyddion i lawr.

## 7.0 SYLWADAU AR Y DYSTIOLAETH

7.1 Mae'r ymgeiswyr yn nodi na chawsant erioed eu herio na'u hatal rhag defnyddio'r llwybr honedig.

7.2 Mae'r ymgeiswyr yn nodi nad oedd unrhyw arwyddion na hysbysiadau yn atal mynediad ar hyd y llwybr heblaw am y rhai oedd wedi eu bwriadu ar gyfer y deifwyr oedd yn defnyddio'r chwarel.

7.3 Nid yw cyflwr y llwybr honedig yn ffactor y gellir ei ystyried dan y ddeddfwriaeth yn rheoli'r weithdrefn hon. Mae'r holl broses yn ymwneud â phennu a oes digon o dystiolaeth i brofi, yn ôl pob tebygolrwydd, bod y cyhoedd wedi ennill yr hawl tramwy dros y llwybr honedig.

7.4 Mae'n ymddangos bod y rhwystrau wedi eu codi yn gynnar yn yr 1990au i atal mynediad gan gerbydau, ac roeddent wedi eu hanelu yn bennaf at ddeifwyr a Theithwyr yr Oes Newydd nid mynediad i gerddwyr.

7.5 Nid yw unrhyw un o'r ffurflenni tystiolaeth a gyflwynwyd nag unrhyw un o'r hawlwyr a gyfwelwyd yn nodi eu bod wedi cael eu troi i ffwrdd gan Mr Carnell.

7.6 Gofynnwyd i Mrs Moira Duell Parri o Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd, roi sylwadau ar y datganiadau a wnaed yn y llythyr oedd yn cyfeirio ati hi. Mae Mrs Duell Parri yn nodi ei bod wedi ysgrifennu at Mr

Carnell yn 2007 ac wedi ei gyfarfod i drafod materion yn ymwneud ag A.79(h) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, ac A.151, Deddf Pyllau a Chwareli 1954. Roedd y materion hyn wedi codi yn dilyn pryderon gan yr Heddlu am faterion diogelwch yn effeithio ar y safle. Yn dilyn trafodaethau rhwng y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a Mr Carnell, fe osodwyd arwyddion gan Mr Carnell ar y mynedfeydd i'r Chwarel a'r ardal barcio ger twll y chwarel. Fe dynnwyd yr arwyddion hyn gan bersonau anhysbys. Fodd bynnag, mae dyletswydd y tirfeddiannwr o ran diogelwch yn parhau.

7.7 Nododd Mrs Shakespeare mewn cyfweliad ac yn ei Datganiad o Dystiolaeth na ddywedwyd wrthi erioed bod y tir yn breifat na bod rhaid iddi gadw oddi ar y tir.

7.8 Mae Mrs Shakespeare yn cydnabod ei bod wedi cyfarfod Mr Philip Townend a Mr Carnell ac mae'n nodi ei bod yn gosod arwyddion i hysbysu'r tirfeddiannwr bod cais wedi cael ei wneud i gofrestru'r llwybr ar draws y safle. Mae'n nodi na ddywedwyd wrthi am dynnu'r arwydd i lawr, sydd yn anghyson â'r datganiad a wnaed gan y Cyfreithwyr, dyddiedig 11$^{fed}$ Tachwedd 2011.

## 8.0 YMGYNGHORIAD

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r rhai yr ymgynghorir â hwy yn statudol am y cais hwn ar dri achlysur gwahanol. Roedd y cyntaf ar 25$^{ain}$ Gorffennaf 2007, yr ail ar 17eg Medi 2009 ac yn olaf eto ar 22$^{ain}$ Medi 2011. Ailadroddwyd yr ymgynghori i wneud yn siŵr bod yr holl dystiolaeth a gwybodaeth am y llwybr honedig yn gyfredol.

8.2 **Ymateb y rhai yr Ymgynghorwyd â Hwy**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas y Cerddwyr | Dim gwrthwynebiad |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) | Dim sylwadau |
| Y Cynghorydd O. P. Huws | Cefnogaeth |
| Y Cynghorydd Dilwyn Lloyd | Cefnogaeth |
| Cyngor Cymuned Llanllyfni | Cefnogaeth |
| Open Spaces Society | Dim ymateb |
| Sustrans | Cefnogaeth |
| CADW | Dim gwrthwynebiad |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim sylwadau |

8.3 Os derbynnir unrhyw sylwadau pellach yn y cyfamser fe roddir adroddiad llafar arnynt i'r Pwyllgor.

## 9.0 CASGLIADAU

9.1 Mae'n ymddangos o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais bod hyd y defnydd ar y llwybr yn ymestyn o 1936 hyd 2007. Mae'n ymddangos bod yr hawlwyr wedi cerdded y llwybr honedig yn y gred ei fod yn llwybr cyhoeddus.

9.2 Mae llawer o'r defnydd yn mynd yn ôl i'r cyfnod pan oedd y Chwarel yn dal yn weithredol, cyn 1970 ac fe ellid ei ddiystyru.

9.3 Ar gyfer dibenion y cais hwn, mae'n ymddangos mai pan gyflwynwyd y cais yn Ionawr 2007 y daeth hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr dan amheuaeth gyntaf.

9.4 Y cyfnod o ddefnydd i'w ystyried felly dan Adran 31 yw 1987-2007. Mae'n ymddangos bod 27 o'r hawlwyr wedi defnyddio'r llwybr am y cyfnod gofynnol hwn, sydd yn ddigon i sefydlu tybiaeth bod y cyhoedd wedi ennill yr hawl i ddefnyddio'r llwybr.

9.5 Mae dwy brif ffordd y gall tirfeddiannwr ddangos nad oes ganddo unrhyw fwriad i ddynodi llwybr cyhoeddus ar draws ei dir:

i) Dan adran 31(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980 pan fydd hysbysiad yn cael ei godi ar lwybr gan y tirfeddiannwr yn nodi nad oes unrhyw fwriad i ddynodi'r llwybr dan sylw yn briffordd. Dylai'r hysbysiad fod yn weladwy i unigolion sy'n defnyddio'r llwybr ac mae gofyn ei gynnal a'i gadw. Byddai'n rhaid i'r geiriad nodi'n glir beth yw ei fwriad e.e. Adran 31 Deddf Priffyrdd 1980, Dim Hawl Tramwy Cyhoeddus.

ii) Dan adran 31(6) o Ddeddf Priffyrdd 1980, gall tirfeddiannwr, ar unrhyw adeg, gyflwyno datganiad a chynllun gyda'r Awdurdod Priffyrdd, yn nodi'r ffyrdd ar draws ei dir sydd wedi cael eu dynodi fel priffyrdd. Gellir ei ddefnyddio hefyd i ddangos nad oes unrhyw ffyrdd wedi cael eu dynodi ar draws y tir ers dyddiad y cyflwyno.

Nid yw cyflwyniadau a wnaed dan Ddeddf 1980 yn diogelu tirfeddiannwr rhag hawliadau a all sefydlu 20 mlynedd o ddefnydd di-dor cyn dyddiad y cyflwyno. Ond, mae cyflwyno dogfennau o'r fath yn "stopio'r cloc" ar gyfer caffael hawliau cyhoeddus trwy ddefnydd, ac mae'n her effeithiol i hawliadau yn y dyfodol.

Mae'n ymddangos nad yw'r tirfeddiannwr presennol nag unrhyw un o'r tirfeddianwyr blaenorol wedi defnyddio'r dulliau uchod.

9.6 Mae'r hawlwyr yn nodi na chawsant eu herio erioed gan y tirfeddiannwr presennol, Capital Landfill nag unrhyw un o'r tirfeddianwyr blaenorol nac unrhyw asiant yn gweithredu ar eu rhan, wrth ddefnyddio'r llwybr honedig.

9.7 Yn ôl pob tebygolrwydd, ystyrir bod digon o dystiolaeth o ddefnydd cyhoeddus heb fwriad clir gan y tirfeddiannwr i herio'r defnydd hwnnw rhwng y blynyddoedd 1987 a 2007.

9.8 Nid oes raid i'r Awdurdod dderbyn unrhyw rwymedigaeth o ran cynnal a chadw'r llwybr a ddaeth yn briffordd trwy ddynodiad tybiedig dan Adran 31 ar ôl 1949, ac felly ni fyddai dan unrhyw ddyletswydd i ail lunio'r llwybr, petai'n cael ei golli trwy brosesau naturiol.

## 10.0. ARGYMHELLION

10.1 Y dylai Cyngor Gwynedd wneud Gorchymyn dan Adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i gofrestru'r llwybr honedig ar y Map Swyddogol o Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

10.2 Petai'r Pwyllgor yn penderfynu gwneud Gorchymyn, argymhellir na ddylid derbyn unrhyw rwymedigaeth am gynnal a chadw'r llwybr hwn.

## 11.0 PAPURAU CEFNDIR

**File 4/2/HT/7CC13/Dorothea**